# Cynllun Dysgu o Bell Powys

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr i helpu iechyd, lles emosiynol a dysgu yn y cartref




01597 826422

education@powys.gov.uk

twitter.com/powyseducation

facebook.com/PowysEducation


www.powys.gov.uk

Powys



## Neges oddi wrth y Cynghorydd Phyl Davies
### Aelod Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Yn gyntaf oll, hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn am yr holl waith yr ydych yn ei wneud i helpu eich plant i ddal ati i ddysgu gartref.

Erbyn hyn, mae eich plant wedi bod gartref am chwe wythnos, ac mae'n bosibl y bydd y trefniadau presennol yn parhau hyd y gellir ei ragweld.

**Mae'r Gweinidog Addysg wedi ei gwneud yn glir y bydd ysgolion yn parhau ar gau hyd nes y bydd yn ddiogel eu hailagor.**

Felly, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o gyflwyno addysgu a dysgu. Mae hyn yn her i ni i gyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i bob rhiant, a gellir eu gweld drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

**https://llyw.cymru/canllawiau-covid-19-i-rieni-gofalwyr-i-gefnogi-teuluoedd-i-aros-yn-ddiogel-yn-iach-ac-i-ddal-ati-i**

Mae tudalen gymorth hefyd ar **Hwb Llywodraeth Cymru**, y llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru.

Mae'r Hwb yn rhoi arweiniad a mannau y gallwch ddod o hyd i weithgareddau diogel i'ch plant. Bydd angen i chi gael enw defnyddiwr a chyfrinair eich plentyn i gael mynediad i Hwb, ac yna byddwch yn gallu cyrraedd y ddolen:

**https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/offer-dysgu-o-bell-drwy-hwb/rhieni-a-gofalwyr/**

Rydym yn gweithio'n galed iawn gyda'n hysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn barod ar gyfer dysgu o bell.

Hoffwn ddiolch i'n penaethiaid, athrawon a staff cymorth am y gwaith y maen nhw'n ei wneud wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell yn ogystal â'u gwaith amhrisiadwy yn y canolfannau gofal plant brys. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ar y ffordd newydd hon o weithio ac rydych chi fel rhieni, eich plant, ac athrawon fel ei gilydd yn ailgyfeirio, yn dod o hyd i rythm newydd, ac yn y bôn yn dal i addasu yn ystod y cyfnod digyffelyb hwn. Gyda phob wythnos sy'n mynd heibio bydd y newid hwn yn teimlo'n debycach i'r drefn arferol newydd i ni gyd.

Drwy weithio gyda'n gilydd - rhieni, plant, penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr, aelodau etholedig a swyddogion yn y Cyngor, gallwn sicrhau bod eich plant yn ddiogel, yn iach ac yn mwynhau eu dysgu yn ystod y cyfnod hwn.

Unwaith eto, diolch i chi am bopeth yr ydych yn ei wneud. Cadwch yn ddiogel.



**Gallwn eich sicrhau nad ydym yn disgwyl i chi addysgu eich plant gartref yn ystod y cyfnod hwn - ni allwch gyflawni rôl yr athro/athrawes na darparu diwrnod ysgol yn eich cartref eich hun:**

- Eich rôl chi yw bod yn rhiant - i ddarparu amgylchedd diogel ac iach i'ch plant lle gallant weithio ar yr hyn y mae eu hathrawon yn ei anfon atynt
- Gallwch helpu eich plant i ddysgu drwy fod yn bresennol a thrwy roi anogaeth iddynt; nid oes angen i chi fod yn diwtoriaid cartref
- Nid oes disgwyl i chi gynnig y diwrnod ysgol arferol; rhowch gymorth ac arweiniad i'ch plant fel y bo'n briodol yn ystod y dydd.
- Dylech gael eich arwain gan yr hyn y mae'r ysgol yn ei osod ar gyfer eich plentyn. Bydd athrawon yn sicrhau bod y tasgau a osodir yn addas i oed a gallu'r plentyn, ac o fewn terfynau amser rhesymol
- Gadewch i'ch plant wneud pethau ar eu pennau eu hunain hefyd – anogwch nhw i fod yn annibynnol, yn enwedig wrth iddyn nhw fynd yn hŷn, megis rhan uchaf yr ysgol gynradd ac ysgol uwchradd
- Chi sy'n adnabod eich plant orau ac yn gwybod faint o amser a chymorth sydd ei angen arnynt
- Siaradwch gyda'ch plentyn am y gwaith mae wedi bod yn ei wneud a dangoswch ddiddordeb yn yr hyn mae wedi bod yn ei ddysgu
- Nid ar-lein yw'r unig ffordd o ddysgu - mae llawer o bethau y gall eich plant eu gwneud yn y tŷ a'r ardd a fydd yn eu helpu i ddysgu - gan gynnwys llyfrau, darlunio, gweithgareddau creadigol eraill, coginio, garddio, teledu a radio
- Nid oes angen i bob dydd fod yr un peth - gwnewch i ddysgu o bell weithio i chi
- Cofiwch fod eich plant yn dysgu drwy'r amser, a dim ond rhan o hynny yw bod yn yr ysgol
- Os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn a'i ddysgu o bell, dylech gysylltu â'ch ysgol.

# Cynllun Dysgu o Bell Powys

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Estyn, ein partneriaid rhanbarthol, penaethiaid a staff ysgolion i ddatblygu y ffordd newydd hon o ddysgu.

Rydym wedi llunio Cynllun Dysgu o Bell sy'n nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer dysgu yn ystod cyfnod y coronafeirws. Rydym yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu ar draws y cwricwlwm i bob un o'n plant a phobl ifanc, ac yn gweithio'n galed i sicrhau y gallant ddal i fyny yn gyflym pan fydd ein hysgolion yn ailagor.

## Mae'r cynllun yn cynnwys:

### Dysgu a Dysgwyr

Mae ysgolion yn gweithio'n galed i adolygu eu cynlluniau cwricwlaidd er mwyn sicrhau cyfleoedd dysgu wedi'u cynllunio ar gyfer pob disgybl. Mae'r awdurdod lleol a rhanbarth ERW yn cefnogi ysgolion gyda'u cynllunio. Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion cwricwlaidd Cynllun Cenedlaethol Dysgu o Bell.

### Cysylltedd

Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod pob disgybl yn gallu parhau i ddysgu drwy gael mynediad i gyfrifiadur / gliniadur / llechen, ynghyd â'r feddalwedd a'r cysylltedd perthnasol.

Mae archwiliad o ddysgwyr sy'n cael anhawster o ran cael mynediad i ddysgu, eisoes wedi'i gynnal a bydd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw broblemau, er enghraifft, drwy ddarparu gliniaduron a chefnogaeth ar gyfer mynediad i'r we.

### Addysgu

Mae pob ysgol yn sicrhau bod athrawon a chynorthwyon dysgu wedi ymrwymo i Gynllun Dysgu o Bell Powys, er enghraifft, drwy baratoi deunyddiau dysgu priodol, monitro gwaith a rhoi adborth i ddisgyblion, yn ogystal ag adolygu'n barhaus yr hyn sydd ar waith.

Bydd hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy raglen dysgu o bell ar-lein a bydd yn helpu i ddatblygu sgiliau addysgu digidol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.

### Rhannu a chydweithio

Mae'n bwysig bod ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i greu adnoddau dysgu addas, yn ogystal â rhannu adnoddau perthnasol ac arferion da â'i gilydd.



## Lles

Mae lles disgyblion a staff yn flaenoriaeth allweddol. Bydd ysgolion yn gofyn i ddysgwyr a'u teuluoedd sut maent yn teimlo yn rheolaidd, yn enwedig disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, plant agored i niwed a grwpiau sy'n fwy anodd i'w cyrraedd.

## Cyfathrebu

Mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig, a bydd ysgolion / athrawon yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd yn ystod y cyfnod hwn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn hanfodol i gyflawni'r cynllun hwn, yn ogystal â sicrhau bod ysgolion yn parhau i weithredu yn ystod y cyfnod hwn ac ar gyfer yr adeg pan fydd ysgolion yn ailagor.

Ceir hefyd ystod o hyfforddiant ar-lein y mae staff ysgol yn gallu defnyddio, er mwyn parhau i wella eu sgiliau a gwybodaeth.

## Cyngor / cymorth pellach

Os oes gennych unrhyw broblemau neu bryderon mewn perthynas â dysgu parhaus eich plant, eich ysgol a'ch athrawon yw eich pwynt cyswllt cyntaf o hyd. Bydd eich pennaeth yn gallu rhoi adborth i ni ac os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch, gallwn ymchwilio i'r mater.

Byddem yn annog rhieni i gadw mewn cysylltiad â'u hysgolion, rhoi gwybod iddynt sut hwyl yr ydych yn ei gael ac anfon rhai lluniau hefyd.

Hoffwn ddiolch i chi hefyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod yr adeg hon; rydym yn gwybod nad yw'n hawdd, yn enwedig pan ydych yn gweithio neu'n gorfod gofalu am eraill hefyd.

## Cymorth Dysgu o Bell

Mae cymorth dysgu o bell ar **Hwb** yn cynnwys amrywiaeth o offer ac adnoddau i'ch helpu chi gyda gweithgareddau dysgu yn ogystal â dolenni cyswllt i gael cyngor ar iechyd a lles.

Mae'n addas i'w ddefnyddio o oed meithrin ymlaen. Bydd eich plentyn wedi cael manylion mewngofnodi ac wedi dysgu sut i'w ddefnyddio yn yr ysgol. Os oes gennych blant ifanc, byddwch wedi derbyn manylion mewngofnodi a gwybodaeth am sut i gael mynediad i **Hwb** gartref.

Mae nifer o **fideos cymorth** wedi cael eu datblygu hefyd i helpu rhieni i ddefnyddio **Hwb**, gan gynnwys sut mae mynd ati i fewngofnodi a sut i ddefnyddio'r ystod o offer dysgu o bell sydd ar gael.

## Llywodraeth Cymru - Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth am ei chynllun Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu: Parhad Dysgu ar ei **gwefan**. Mae hyn yn cynnwys arweiniad a chyngor pellach i rieni yn ystod y pandemig coronafeirws.